

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Codwn o Hyd

Cyflawni newid sy'n para er mwyn dileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

## Strategaeth 5 Mlynedd

## 2019 – 2024




03 Codwn o Hyd: Cyflwyno ein strategaeth

04 Y broblem

06 Ein gweledigaeth a'n pwrpas

07 Ein gwerthoedd a'n dull o weithredu

09 Rhai llwyddiannau diweddar

11 Ein Strategaeth i gyflawni'n gweledigaeth: Glasbrint ar gyfer newid

14 Ein cenhadaeth: Nodau strategol

15 Ein blaenoriaethau 2019-2024

18 Ein ffederasiwn: Sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau

20 Ein llywodraethiant: Sut y byddwn yn mesur cynnydd

21 Theori newid

22 Ymunwch â'n mudiad dros newid


# Cynnwys

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Codwn o Hyd: Cyflwyno ein strategaeth

Nid yw trais yn erbyn menywod a merched yn anochel. Mae'n bosibl ei atal yn llwyr gyda'r ewyllys cyhoeddus a gwleidyddol angenrheidiol a'r adnoddau a neilltuir i gyflawni'r nod hwn. Mae'r ffaith na wnaethom hyd yma gynnydd digonol i'w leihau a'i atal yn dweud rhywbeth wrthym am statws menywod a merched o fewn ein cymuned.

Fel mudiad, yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i osod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fwy cadarn ar yr agenda wleidyddol a chyhoeddus, trwy gyfreithiau, strategaeth a pholisi. Mae gan Gymru bellach ddeddfwriaeth arloesol sy'n ei gwneud yn ofynnol, ymhlith dyletswyddau statudol eraill, i wasanaethau cyhoeddus datganoledig ystyried atal trais yn erbyn menywod ym mhob peth a wnânt.

Ond mae gennym ffordd bell i fynd o hyd cyn i asiantaethau weithredu deddfau, polisïau a chonfensiynau rhyngwladol yn gyson ac yn effeithiol, er budd pob un sy'n goroesi camdriniaeth.

Mae gormod o oroeswyr ar restrau aros i gael mynediad at gymorth arbenigol. Mae adnoddau ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn ansicr ac yn lleihau, ac mae prinder buddsoddi mewn cymorth arbenigol pwrpasol ar gyfer plant. Mae systemau a gwasanaethau yn esgeuluso menywod o gymunedau lleiafrifol yn arbennig, ac mae llawer yn dal i wynebu'r dewis plaen o aros gyda'u camdriniwr neu wynebu bod heb ddimai goch. Mae aflonyddu rhywiol yn gyffredin mewn gweithleoedd ac mewn mannau cyhoeddus. Ni roddir digon o sylw i atal ymddygiad drwgweithredwyr. Hyd yn oed mewn rhaglenni ymyrraeth 'risg uchel', mae gwasanaethau yn methu ag ymgysylltu â dynion treisgar oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn anodd i'w trin neu'n rhy beryglus.

## Mae ein strategaeth yn alwad i weithredu

Dathlwyd llawer o lwyddiannau gennym yn 2018, a goffaodd ein 40fed blwyddyn, ond fe ganolbwyntiwyd unwaith eto hefyd ar barhau i godi i'r her o ddileu trais a cham-drin yn ystod ein hoes ni. Dim ond drwy sicrhau newid parhaol yn ein cymunedau y gallwn sicrhau nad ydym yma o fewn 40 mlynedd arall – nid oherwydd diffyg adnoddau ond oherwydd i ni atal trais yn erbyn menywod a merched rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae Cynllun Strategol 2019-2024 yn gosod ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, fel ffederasiwn cenedlaethol. Fe'i datblygwyd drwy broses gyfranogol, gan adeiladu ar ganfyddiadau adolygiad annibynnol ac ymgysylltu ag aelodau, llunwyr polisi, gwasanaethau'r trydydd sector, goroeswyr, a chyllidwyr yng Nghymru. Mae ymddiriedolwyr a staff hefyd wedi cymryd rhan drwyddi draw.

Fe'i llywiwyd gan ein 'theori newid', ein dealltwriaeth o'r hyn yw'r broblem a sut y credwn y ceir newid. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r newid cadarnhaol yr ydym am ei greu, a'n blaenoriaethau o ran gweithredu, ac mae'n cynnig glasbrint ar gyfer cyflawni newid sy'n para, i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.




*Eleri Butler, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru*



*Paula Walters, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr*



*Eleri Butler, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru*



*Paula Walters, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr*

# Y broblem

**Mae trais yn erbyn menywod a merched yn cael ei ddioddef ar lefelau epidemig yn fyd-eang ac yn genedlaethol. Caiff effaith ddinistriol ar fenywod a'u plant, ar deuluoedd ac ar gymunedau. Mae'n broblem bandemig: mae mwy o fenywod yn dioddef o gael eu treisio neu o ymgais i'w treisio nag sy'n dioddef strôc bob blwyddyn, ac mae lefel y cam-drin domestig o fewn y boblogaeth yn fwy o lawer na'r clefyd siwgwr. Mae'n digwydd yng Nghymru ac yn fyd-eang, gan dorri ar draws cenedlaethau, cenhedloedd, cymunedau a chylchoedd o fewn ein cymunedau. Eto i gyd, nid oes gan lawer o bobl ddealltwriaeth gyffredin o'i ehangder a'i effaith, ac o ddatrysiadau i'w atal rhag digwydd eto.**

Mae ***trais yn erbyn menywod*** yn "Ymyriad â hawliau dynol ac yn fath o wahaniaethu yn erbyn menywod, a golyga bob gweithred o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i fenywod, neu sy'n debygol o'u hachosi, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu mympwyol o ryddid, boed hynny mewn bywyd cyhoeddus neu breifat." Mae hyn yn cynnwys treisio, trais domestig, priodas dan orfod a throseddau ar sail 'anrhydedd' fel y'u gelwir, enwaedu benywod, stelcian, masnachu pobl a chamfanteisio'n rhywiol.

Mae Confensiwn Istanbul yn diffinio ***trais domestig*** fel "pob gweithred o drais corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd sy'n digwydd o fewn yr uned deuluol neu ddomestig neu rhwng cyn-briod/cyn-bartner neu briod/bartner presennol, p'un a yw'r drwgweithredwr yn rhannu neu wedi rhannu'r un breswylfa â'r dioddefwr".

Mae ***trais rhywiol*** yn cynnwys unrhyw ymddygiad y tybir ei fod o natur rywiol sy'n ddiangen ac sy'n digwydd heb gydsyniad na dealltwriaeth. Mae hyn yn cynnwys treisio ac ymosodiadau rhywiol, trais a cham-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, a chamfanteisio'n rhywiol, gan gynnwys bod yn gysylltiedig â masnachu a'r diwydiant rhyw. Mae'r diwydiant rhyw yn cynnwys puteindra, pornograffi a gweithgareddau masnachol eraill sy'n seiliedig ar ryw megis dawnsio glin, sy'n aml ond nid yn unig yn gysylltiedig ag 'economi'r nos'. Ystyrir yn rhyngwladol bod masnachu pobl i mewn ac o fewn y DU yn gysylltiedig â phuteindra; mae hwyluso symud ar gyfer puteindra o fewn ac ar draws ffiniau yn gyfystyr â masnachu.

Mae 1 o bob 3 menyw yn dioddef rhyw fath o drais a cham-drin yn ystod eu bywyd, yn arbennig trais a thrais rhywiol wrth law partner agos.




**_Mae 1 o bob 3 menyw yn dioddef rhyw fath o drais a cham-drin yn ystod eu bywyd[1]_, yn arbennig trais a thrais rhywiol wrth law partner agos. Eto i gyd mae bwlch sylweddol yn genedlaethol o ran casglu data ar nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, ac i ba raddau y mae goroeswyr a drwgweithredwyr yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.**

Yn 2017-18 yn Lloegr a Chymru, dioddefodd tua 2 filiwn o oedolion gam-drin domestig; roedd 1.3 miliwn yn fenywod.[2] Yn 2017-18, cafwyd 140 o erlyniadau treisio yng Nghymru, gyda chyfradd y dedfrydau yn 60.9%; roedd 563 dedfryd am ymosodiad rhywiol difrifol.[3] Y nifer o ddigwyddiadau o gam-drin domestig a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru yn ystod 2017-18 oedd 36,529.[4]

Mae ffurflenni data[5] aelodau Cymorth i Fenywod Cymru yn dangos bod 12,166 o oroeswyr wedi derbyn cymorth gan wasanaethau arbenigol y llynedd; nad oedd modd rhoi cymorth i 431 o oroeswyr a atgyfeiriwyd at lochesau a hynny oherwydd adnoddau a chapasiti; bod 292 (26% o'r atgyfeiriadau) o oroeswyr trais rhywiol ar restrau aros i dderbyn cymorth. Ymatebodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn i 33,642 o gysylltiadau am gymorth, 11% yn fwy nag yn 2016/17. Mae menywod yng Nghymru hefyd yn adrodd am lefelau uchel o aflonyddu rhywiol yn y gweithle ac mae merched yn aml yn wynebu bwlio rhywiaethol mewn ysgolion ledled Cymru.

Gwyddom fod cam-drin domestig, priodas dan orfod, treisio a thrais rhywiol, trais 'ar sail anrhydedd', aflonyddu a chamfanteiso yn cael eu cyflawni'n anghymesur yn erbyn menywod a merched, a bod drwgweithredwyr fel arfer, ond nid bob amser, yn ddynion. Gwyddom hefyd fod anghydraddoldeb menywod, o ganlyniad i'w dosbarth, rhywioldeb, ethnigrwydd, gallu, iechyd meddwl neu oed, yn eu gwneud yn fwy tebygol o gael eu cam-drin a wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at gyfiawnder a chymorth.

Caiff trais yn erbyn menwyod a merched ei gyfreithloni a'i ganiatáu gan anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion a chan agweddau tuag at fenywod a merched, sy'n atal unigolion, asiantaethau cyhoeddus ac eraill rhag ymateb yn ddigonol, gwrando ar oroeswyr neu roi terfyn ar ymddygiad drwgweithredwyr. Mae'n parhau i fod ynghudd ond o fewn golwg oherwydd tactegau fel lledneisio a pheidio ag enwi trais gwrywaidd yn erbyn menywod, ac o ganlyniad i feio dioddefwyr, cuddio dilyniant a chysylltiadau rhwng ymddygiad treisgar, a gwadu trais a'i ganlyniadau.

Mae degawdau o brofiad a thystiolaeth wedi ein dysgu bod gwasanaethau a phartneriaethau yn ei chael hi'n anodd cefnogi goroeswyr sy'n dioddef anfanteision lluosog; bod ffocws ar 'risg uchel' ac ar gam-drin domestig yn unig yn golygu bod anghenion lluosog yn cael eu hanwybyddu yn aml a bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn seilos; a bod diffyg gwasanaethau sy'n ymateb i rywedd yn arwain at arferion diwerth ac anniogel.

Mae hyn yn gost ddynol, gymdeithasol ac economaidd enfawr i bob agwedd ar fywyd ac i bob gwasanaeth cyhoeddus: mae cam-drin domestig yn unig yn costio £66 biliwn y flwyddyn i'r wladwriaeth yn Lloegr a Chymru. Ar yr un pryd mae tanfuddsoddi sylweddol yn parhau i fod mewn gwasanaethau arbenigol yn y trydydd sector.

Rydym am weld diwedd ar beidio â chredu goroeswyr cam-drin neu beidio â'u cymryd o ddifrif. Rydym am weld diwedd ar gamdrinwyr yn mynd heb eu herio neu'u cosbi. Rydym am weld diwedd ar fenywod a merched yn byw gyda thrais a cham-drin beunyddiol sy'n cynnal ac yn creu anghydraddoldebau.

Ni allwn honni ein bod yn cydymffurfio â chonfensiynau a deddfau pan fydd gwasanaethau a systemau yn parhau i esgeuluso'r menywod y gwahanieithir yn eu herbyn ac a gaiff eu hymyleiddio fwyaf gan gam-drin. Ni allwn honni bod yn wlad sy'n ymrwymo i gydraddoldeb rhywiol pan fo lefelau trais yn erbyn menywod a merched ar lefelau epidemig o fewn ein cymunedau.

**NODIADAU**

[1] https://fra.europa.eu/en/publication/2014/violence-against-women-eu-wide-survey-main-results-report

[2] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2018

[3] https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2018.pdf

[4] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/appendixtablesfocusonviolentcrimeandsexualoffences

[5] Adroddiad Blynyddol (2018)Cymorth i Ferched Cymru: Data o wasanaethau arbenigol yng Nghymru, 2017/18

"Rydym yn disgwyl i Cymorth i Ferched Cymru ein cynrychioli ni, wrth ymwneud â strategaeth genedlaethol, lobïo ac ymgyrchu, gan ein cynorthwyo i wneud yr hyn y mae angen inni ei wneud yn lleol."

- Gwasanaeth Arbenigol Lleol

# Ein gweledigaeth a'n pwrpas

**Rydym am weld byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod, a thrwy wneud hynny sicrhau annibyniaeth, rhyddid a gwaredigaeth rhag gormes.**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Am dros bedwar degawd rydym wedi ***darparu cymorth, arweiniad a chynrychiolaeth i'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol*** yng Nghymru. Mae rhoi llais i wasanaethau arbenigol a'r goroeswyr a'r teuluoedd y maen nhw'n cydweithio â nhw yn ein cynorthwyo i hyrwyddo a thrawsnewid cyfreithiau, polisïau ac arferion er budd goroeswyr camdriniaeth.

Fel y corff aelodaeth ar gyfer gwasanaethau arbenigol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau i fodloni'r galw cynyddol am gymorth yng Nghymru, tra'n bod hefyd yn canolbwyntio ar atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ein nod yw cefnogi gwasanaethau i wneud y gorau o'u gallu i wneud yr hyn y maen nhw'n ei wneud orau: darparu cymorth achub bywyd, cymorth newid-bywyd a chymorth ataliol i oroeswyr a'u teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin o fewn ein cymunedau.

Mae dileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes i bawb. Felly, rydym hefyd yn ***cydweithredu, yn hysbysu, yn cefnogi ac yn dylanwadu o fewn cymunedau ac ar draws llywodraethau a sefydliadau eraill***. Rydym am glywed mwy o oroeswyr yn dweud wrthym bod gwasanaethau yn gwrando, yn credu ac yn peidio â barnu, yn adeiladu ar eu cryfderau ac yn diwallu eu hanghenion. Rydym am i fwy o wasanaethau a systemau ganolbwyntio ar atal a herio drwgweithredwyr tra'n rhoi terfyn ar eu cam-drin. Rydym am weld mwy o atebolrwydd i oroeswyr, a chymunedau mwy gwybodus, sy'n hyderus i ymateb i gam-drin ac i ddatgymalu'r normau, arferion ac anghydraddoldebau cymdeithasol a diwylliannol sy'n sail iddo.

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn rhwystr enfawr i gyflawni hawliau dynol menywod a merched ac i gyflawni Agenda 2030 ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth hon yn targedu ein ***gwaith ar lefel unigol, teuluol, cymunedol a chymdeithasol***, gan mai dyma'r ffordd orau o gyfalwni ein gweledigaeth i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hynny am byth. Mae gan bawb yng Nghymru yr hawl i fyw yn rhydd rhag ofn a chamdriniaeth. Rydym hefyd am sicrhau bod menywod a merched yng Nghymru yn cyflawni annibyniaeth, rhyddid a gwaredigaeth rhag gwahaniaethu, anfantais a gormes, er mwyn iddynt ffynnu i gymryd rhan gyflawn yn y gymdeithas.

# Ein gwerthoedd a'n dull o weithredu

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn sefydliad ffeministaidd, a seilir ein gwerthoedd ar ymrwymiadau i hawliau dynol, gwrthwahaniaethu a rhyddid rhag gormes. Cymeradwywn dystiolaeth fyd-eang bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn seiliedig ar rywedd, yn achos ac yn ganlyniad i safle anghyfartal menywod a merched mewn cymdeithas, yn torri ar hawliau dynol ac yn gwbl ataliadwy.**

"Mae'r gwerthoedd a'r dadansoddiad a rennir o drais yn erbyn menywod, a bod yn aelod o sefydliad cenedlaethol sydd â'r un dadansoddiad o'r materion, o'r gwerth mwyaf i ni."

**- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**

**Seilir ein dull o weithredu ar y gwerthoedd sylfaenol canlynol:**

### *Rydym yn ffeministaidd a gwerthfawrogwn amrywiaeth o brofiadau byw*

Rydym yn ehangu lleisiau amrywiol, gan gydnabod bod hunaniaethau a phrofiadau bywyd yn effeithio ar brofiadau o gam-drin ac ar fynediad at gymorth, diogelwch a chyfiawnder. Rydym yn argymell dileu trais yn erbyn menywod a merched ochr yn ochr â rhyddhau pob menyw a merch rhag gormes lluosog megis rhywiaeth, hiliaeth, gwahaniaethu ar sail dosbarth, homoffobia, gwahaniaethu ar sail oed, gwahaniaethu ar sail gallu, trawsffobia, er mwyn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i bawb.

### *Rydym yn hyrwyddo uniondeb*

Rydym yn atebol, a gosodwn leisiau goroeswyr a'u profiadau bywyd yn ganolog i'n gwaith. Rydym yn annog parch, tryloywder a dysgu o brofiad, heriwn gamddefnydd o bŵer a hyrwyddwn gyfrifoldeb cymdeithasol ym mhob peth a wnawn.

### *Rydym yn cydweithio*

Gweithiwn gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol, sefydliadau eraill, unigolion a chymunedau, i feithrin gallu gwasanaethau ac i ddarparu tystiolaeth a chyflwyno'r hyn sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### *Rydym yn grymuso*

Argymhellwn ddull sy'n seiliedig ar hawliau fel bod pob menyw a phlentyn yn medru cyflawni eu llawn botensial, a hyrwyddwn wasanaethau a arweinir gan ac ar gyfer menywod/grwpiau lleiafrifol fel rhai sy'n hanfodol i ddiwallu anghenion ac i gyflawni rhyddid cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol rhag patriarchaeth, hiliaeth a mathau eraill o ormes.

### *Rydym yn trawsnewid*

Rydym wedi ymrwymo i herio anghydraddoldebau a gwahaniaethu, i gyfuno gwasanaethau o ansawdd uchel gyda gweithredu dros newid cymdeithasol, ac i adeiladu sefydliad sy'n dileu trais yn erbyn menywod a merched ac sy'n rhyddhau menywod a merched rhag mathau lluosog o ormes sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd, a hynny er budd pawb.

“Mae safbwynt ffeministaidd yn hanfodol i’r weledigaeth hirdymor i ddileu trais yn erbyn menywod, nid oes dim a wnawn y tu allan i’r ffocws hwnnw, ac rwy’n dymuno i’m sefydliad cenedlaethol fod yr un mor llafar a chadarn yn hynny o beth, ac ni ddylem golli hynny.”

**- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**

## Mae ein gwerthoedd a’n dull gweithredu yn sail i’n gwaith yn genedlaethol ac i waith ein haelodau.




Mae gosod y gwerthoedd hyn yn ganolog i’n dull o weithredu yn golygu ein bod yn eu hymgorffori yn ein prosesau recrwitio, yn y ffordd y gweithiwn a sut y cydweithiwn ag eraill. Mae’n golygu bod yn ddigyfaddawd wrth wynebu camddefnydd heriol o bŵer neu arferion gormesol, mae’n golygu rhannu arbenigedd, derbyn nad ydym bob amser yn gywir, ond ymrwymo i ddysgu a symud ymlaen er budd pawb sydd wedi goroesi camdriniaeth.

Mae ein dull yn seiliedig ar dystiolaeth bod menywod a merched, a dynion a bechgyn, yn profi ac yn cyflawni trais a cham-drin yn wahanol. Mae rhyw a rhywedd y dioddefwr a’r drwgweithredwr yn dylanwadu ar natur y cam-drin, ei ddifrifoldeb, ei niwed a’i angeuoldeb. Mae menywod a merched, yn arbennig, yn dioddef camdriniaeth a rheoleiddio mewn bywyd bob dydd ar gyfraddau uwch, a dynion ar draws pob grŵp sy’n fwyaf tebygol o gam-drin menywod, dynion a phlant.

Mae trais yn digwydd mewn perthnasoedd o’r un rhyw ac yn erbyn pobl drawsryweddol, ac mae menywod hefyd yn defnyddio trais. Felly rydym wedi ymrwymo i arferion gwrthwahaniaethol ac i sicrhau diogelwch, cefnogaeth, amddiffyniad a chyfiawnder i bob menyw a merch, dyn a bachgen, ac i bobl drawsryweddol. Mae ein polisi trawsrywedd yn ymrwymo i gefnogi’r broses o wireddu hawliau pobl drawsryweddol, a darparu gwasanaethau a chymorth trawsgynhwysol.

Cefnogwn dystiolaeth o bwysigrwydd mannau a gwasanaethau un rhyw sydd o fudd i fenywod (wedi’u hategu gan eithriadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), a’r angen am wasanaethau a gynllunir, a gyflwynir ac a arweinir ‘gan ac ar gyfer’ menywod, menywod duon a lleiafrifol a grwpiau eraill. Mae tystiolaeth yn dangos mai gwasanaethau ‘gan ac ar gyfer’ sy’n diwallu anghenion cymorth orau ac sydd hefyd yn cyfrannu at ryddid cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol rhag patriarchaeth, hiliaeth a mathau eraill o ormes.

Nid yw’r gwerthoedd a’r dull hwn o weithredu yn atal sefydliadau o fewn ein ffederasiwn rhag cyflogi dynion, cefnogi dynion a bechgyn, neu weithio gyda drwgweithredwyr. Mae darparu gwasanaethau sy’n sensitif i ryw, rhywedd, ethnigrwydd, diwylliant, rhywioldeb, oed a gallu yn elfen hanfodol i wasanaethau arbenigol, wrth gefnogi goroeswyr yn effeithiol ac ymyrryd â throseddwyr.

Deallwn bwysigrwydd hanfodol canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod a merched fel mathau penodol a chysylltiedig o gam-drin. Mae normau a stereoteipiau ar sail rhywedd, sy’n aml yn sail i drais yn erbyn menywod a merched, yn atgyfnerthu ac yn gorgyffwrdd â rhywiaeth, hiliaeth, homoffobia a mathau eraill o wahaniaethu, sy’n ein niweidio ni i gyd, sy’n gormesu menywod a merched fel grŵp, ac sy’n rhwystr i gyflawni cydraddoldeb. Rydym wedi ymrwymo i herio, tarfu ar, a newid normau cymdeithasol a diwylliannol ac i ddatgymalu patriarchaeth a systemau a strwythuaru sy’n gorgyffwrdd ac sy’n sicrhau parhad camdriniaeth, niwed ac anghydraddoldebau.

# Rhai llwyddiannau diweddar

**Fel ffederasiwn a sefydliad cenedlaethol sy'n rhychwantu pedwar degawd, mae gennym lawer i ymfalchïo ynddo, a chasglwyd ein llwyddiannau a'n hanes i ffurfio arddangosfa genedlaethol ac archif sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.[6] Yn fwy diweddar, o dan arweinyddiaeth newydd yn Cymorth i Ferchhed Cymru, rydym wedi cyflawni, ac mewn nifer o achosion, wedi rhagori ar yr hyn yr oeddem wedi bwriadu ei wneud yn ystod y cyfnod blaenorol o dair blynedd.**

Bu i ni ddylanwadu a llywio'r broses o ddatblygu a gweithredu Deddf arloesol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a gyflwynodd ddyletswydd statudol ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig i atal trais yn erbyn menywod.

Darparwyd rhaglen benodol gennym hefyd ar gyfer capasiti a sgiliau'r sector adeiladu, a sefydlwyd fframwaith Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru sy'n cyd-fynd â safonau'r sector ar gyfer trais rhywiol a gwasanaethau arbenigol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Datblygwyd a darparwyd Partneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi gennym gydag aelodau a sicrhawyd y rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gyfer cyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yng Nghymru. Ehangwyd ein partneriaethau hyfforddi, a chefnogwyd datblygiad a chyflwyniad hyfforddiant ymddygiad rheolaeth gymhellol, stelcian ac aflonyddu ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Yn fwy diweddar, cawsom drwydded y Coleg Plismona i gyflwyno eu rhaglen 'Mae Cam-drin Domestig o Bwys' i'r heddlu ledled Cymru ac i gefnogi'r gwaith o'i chyflwyno yn Lloegr.

Buom yn ymgyrchu ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys effaith toriadau cyllid trwy ein hadroddiadau ar "Cyflwr y Sector" a'r angen am gyllid diogel a chynaliadwy i wasanaethau arbenigol. Sicrhaodd hyn ymrwymiad Strategaeth Genedlaethol, o dan ein harweiniad crëwyd Pecyn Cymorth Comisiynu ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, ac erbyn hyn mae gennym ganllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru i'w atgyfnerthu.

Gwnaethom gyfraniad i Grŵp Arbenigol ac fe ymgyrchwyd yn llwyddiannus gennym i gynnwys Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn orfodol o fewn y cwricwlwm Cymreig newydd. Fe gynhyrchwyd Canllaw cenedlaethol gennym hefyd (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru) ar gyflwyno Dulliau Addysg Gyfan i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cefnogir hyn gan ein hadnoddau ategol i athrawon mewn ysgolion i gyflwyno addysg berthnasol, a chydweithredwyd gennym i gynhyrchu adnoddau AGENDA/ AGENDA Cynradd ar anghydraddoldeb rhywiol, o dan arweiniad pobl ifanc mewn cymunedau lleol.

Sicrhawyd ymrwymiad gennym yn y Strategaeth Genedlaethol i greu fframwaith cendlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr yng Nghymru ac rydym wedi gosod lleisiau a phrofiadau goroeswyr yn ganolog i'n gwaith polisi ac eiriolaeth strategol. Mae goroeswyr yn gweithio o fewn ein sefydliad ac yn cymryd rhan yn y gwaith o'i gyflawni – trwy grwpiau ffocws a dulliau eraill – ac maen nhw'n cyfrannu at ein hymgyrchoedd.

> "Roeddwn i'n gaeth, doeddwn i ddim yn gallu dysgu Saesneg, neu ddysgu unrhyw sgiliau, does dim gofal plant gen i."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

NODIADAU

[6] https://www.peoplescollection.wales/discover/content_type/item/query/+forty+years%2Cforty+voices

**Rydym hefyd wedi treialu prosiect arloesol i hyfforddi a chefnogi goroeswyr i rymuso ac addysgu gwasanaethau i wella eu hymatebion (SEEdS). Mae menywod mewn grwpiau gwasanaeth grymuso ac addysgu goroeswyr yn awr yn cynghori'r llywodraeth, comisiynwyr, a gwasanaethau ynghylch hyfforddi, cyfathrebu a gwella arferion.**

> "Gall y system llys teulu barhau i'ch cam-drin wedi ichi adael eich cyn-bartner, mae'r system yn eich cam-drin unwaith yn rhagor."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

Mae ein sefydliad yng Nghymru yn parhau i dyfu. Yn ddiweddar croesawyd gwasanaethau newydd gennym i'n ffederasiwn a'r rheini'n rhai sy'n rhannu ein gweledigaeth, gwerthoedd sylfaenol a'n dull gweithredu. Rydym hefyd wedi sefydlu sylfaen o gefnogwyr ehangach, trwy gyfrwng ymgyrch 'Mae'r Amser ar Ben' i herio a dileu aflonyddu a cham-drin rhywiol yng Nghymru fel rhan o fudiad dros newid yn y DU ac yn fyd-eang.

Yn fwyaf arwyddocaol, fe grëwyd gennym y sylfaen ar gyfer glasbrint i atal trais gan ddynion yn erbyn menywod a merched a fydd o gymorth i lywio ein hymyriadau a'n gweithgareddau yn y dyfodol: Newid sy'n Para. Llywiwyd hwn gan ymchwil i'r rhesymau pam nad oedd systemau ac ymyraethau cyfredol a argymhellwyd mor gryf gan rai asiantaethau, llywodraethau a chyllidwyr yn cael fawr ddim effaith hirdymor.

Wedi'n calanogi gan y dystiolaeth ar gyfer y dull newydd hwn, datblygwyd partneriaethau newydd gennym gyda nifer o sefydliadau balenllaw yn y maes, a rhannwyd ein dysgu ar draws Ewrop a'r DU. Rydym wedi sicrhau adnoddau i helpu aelodau dreialu ein glasbrint ar gyfer newid, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein haelodau i barhau i adeiladau ymatebion o gylch anghenion goroeswyr a'r cryfderau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.[7]

Ni fyddai wedi bod yn bosibl inni gyflawni ein llwyddiannau[8] heb fuddsoddiad cyfochrog yn ein seilwaith, er mwyn sicrhau bod gennym dimau medrus a phrofiadol a'n bod wedi denu Bwrdd o Ymddiriedolwyr â sgiliau mwy amrwyiol. Arweiniodd hyn at fframwaith llywodraethu a phrosesau cryfach yn unol â Chod Llywodraethu Elusennau newydd, ac rydym yn falch o fod wedi cyflawni sawl marc ansawdd gan gynnwys gwobr "Elsuen y gellir Ymddiried ynddi" ("Trusted Charity") a Safon Llinell Gymorth am gyflwyno'r llinell gymorth genedlaethol yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus i'n gwaith gan Lywodraeth Cymru, cyfranwyr unigol a chyllidwyr eraill, ac am y cyllid a gynhyrchwn trwy'n gweithgareddau a'n gwasanaethau.

**Mae Newid sy'n Para yn ddull system gyfan o atal trais yn erbyn menywod a merched. Y nod yw i newid o ganolbwyntio'n llwyr ar risg i ddechrau gyda chryfderau ac anghenion menywod a phlant, i hwyluso'r llwybr byrraf neu fwyaf effeithiol at ddiwallu anghenion, at annibyniaeth ac at ryddid rhag camdriniaeth.**


**Mae Newid sy'n Para yn symud y ffocws hefyd i fod ar y rheini sy'n troseddu neu'r rheini sy'n cydgynllwynio mewn trais gwrywaidd yn erbyn menywod. Caiff rhwystrau i gael hawliau eu dileu neu'u lleihau, caiff ymatebion gan asiantaethau a chyflogwyr eu gwella, a chefnogir cymunedau i ddeall y rôl weithredol y gallan nhw ei chwarae wrth atal cam-drin.**

NODIADAU

[7] Mae'n partneriaeth yn cynnwys Women's Aid England, Respect, Scottish Women's Aid a Northern Ireland Women's Aid

[8] Am fanylion llawn ynghylch ein llwyddiannau, cysylltwch â ni, neu drowch at ein Hadroddiadau Blynyddol ar www.welshwomensaid.org.uk

# Ein Strategaeth i gyflawni'n gweledigaeth: Glasbrint ar gyfer newid




"Bydd eiriolaeth sefydliadol a herio gwleidyddion yn cyfrannu at y newid cymdeithasol sydd ei angen arnom i ddileu trais yn erbyn menywod."

**- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**

Nod Cymorth i Ferched Cymru yw targedu ein gwaith ar lefelau **unigol, teuluol, cymunedol a chymdeithasol**. Gwyddom o dystiolaeth fyd-eang mai'r dull hwn[9] yw'r ffordd orau i sicrhau bod strategaethau, cynlluniau ac ymyriadau yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol, a phob cyflwr sy'n effeithio ar brofiadau goroeswyr a'r tebygolrwydd y bydd drwgweithredwyr yn dewis defnyddio trais a cham-drin.

## *Achosion sylfaenol:*

*Anghydraddoldeb a gwahaniaethu wedi'u llunio gan: (1) ffactorau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol, systemau a normau, polisi a fframweithiau cyfreithiol (2) ffactorau hanesyddol (e.e. arferion diwylliannol, coloneiddio a (3) gwahaniaethau strwythurol ar sail rhyw, oed, dosbarth, incwm, ethnigrwydd, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, rhywioldeb a nodweddion eraill.*

NODIADAU

[9] Mae'r model hwn yn defnyddio ac yn addasu model rhyngweithiol 'Factors at play in the perpetration of violence against women, violence against children and sexual orientation violence', a ddatblygwyd gan Hagemann-White et al ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd. Fe'i seiliwyd ar adolygiad ymchwil eang a chyflym o'r dystiolaeth gyfredol o'r ffactorau sy'n cyfrannu at drais a cham-drin, a'i fwriad yw llywio datblygiad gwaith ataliol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n adeiladu ar 'fodel ecolegol' ar gyfer ataliad gan Sefydliad Iechyd y Byd, model a ddefnyddir yn helaeth.

[10] Daw'r ddelwedd hon o 'United NationsFramework to Underpin Action to prevent Violence Against Women'. http://www.unwomen.org/en/what-we-do/ending-violence-against-women/prevention

Gwyddom fod ymddygiadau, agweddau a chredoau unigolion yn cael eu llunio gan gynefinoedd pobl yn ogystal â chan ddylanwadau ar lefelau cymdeithasol. Ar yr un pryd, dylanwadir ar strwythurau a diwylliannau gan agweddau ac ymddygiad unigol. Felly mae'n hanfodol bod gweithgareddau'n cael eu cefnogi a'u hatgyfnerthu ar lefel gymdeithasol, megis cyflawni cyfreithiau a pholisïau sy'n hyrwyddo hawliau dynol ac sy'n mynd i'r afael â thrais a cham-drin.

Er mwyn sicrhau unrhyw newid parhaol, mae'n hanfodol felly bod gwahanol sectorau, ar wahanol lefelau, yn ymwneud â'r gwaith er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithiol.

## Cefnogi gwasanaethau i gefnogi unigolion a theuluoedd

**Ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, argymhellwn ddull gweithredu sy'n ymateb i rywedd ac sydd wedi'i lywio gan drawma, sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi'i arwain gan anghenion ac sy'n galluogi goroeswyr (menywod, dynion, merched a bechgyn) i sicrhau annibyniaeth a rhyddid a drwgweithredwyr i roi terfyn ar eu cam-drin.**

Golyga hyn ymateb i'r person cyfan a sut mae ei brofiadau/phrofiadau bywyd, yr hunaniaethau, y cryfderau a'r rhwystrau y gallai eu hwynebu, yn llywio sut y mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o sut y caiff cam-drin ei gyflawni ac o'i effeithiau a brofir o fewn teuluoedd, o fewn grwpiau o gyfoedion neu ymhlith ffrindiau neu gydweithwyr, ac o fewn cymunedau, ac ymateb iddo.

Rydym yn cydnabod y gwerth a'r pwysigrwydd a roddir gan fenywod ar allu cael mynediad at wasanaethau a arweinir gan ac ar gyfer merched a chan ac ar gyfer menywod duon a 'lleiafrifoedd ethnig'. Rydym hefyd yn cydnabod gwerth cymorth sy'n ymateb i rywedd a diwylliant, er mwyn pennu blaenoriaethau a chryfhau, er mwyn modelu a hyrwyddo arweinyddiaeth, ymreolaeth a hunanbenderfyniad. Mae gwasanaethau 'Gan ac ar gyfer' yn gyfreithlon, mae angen a galw mawr amdanynt, maen nhw'n effeithiol o safbwynt gwerth am arian ac effaith gymdeithasol, ac fe'u cydnabyddir yn rhyngwladol fel mecanwaith allweddol i sicrhau cydraddoldeb.

Rydym hefyd yn cefnogi ac yn ategu'r angen i ymyrryd yn gynnar â drwgweithredwyr, er mwyn rheoli a lleihau'r perygl y gallant ei achosi a newid eu hymddygiad. Mae ymdeimlad drwgweithredwyr o hawl yn aml wedi'i gefnogi gan agweddau, ymddygiad a systemau rhywiaethol, hiliol, anablaidd, homoffobig ac agweddau eraill sy'n gwahaniaethu, a'r rheini'n cynnal ac yn creu anghydraddoldeb. Felly mae gwaith ataliol hefyd yn gorfod tarfu ar y systemau a'r stwythurau sy'n caniatáu neu'n cynnal ymddygiad drwgweithredwyr.

Mae hwn yn fusnes i bawb. Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol gael ei arfogi i adnabod, ymateb i ac atal cam-drin yn well, yn union fel y mae angen i bob cymuned fod â'r gallu i weithredu'n gynnar a chyfrannu tuag at ei atal.

> "Er bod y ddeddfwriaeth a'r strategaeth yn gryf, nid oes digon o gyfraniad ar draws Cymru o hyd gan awdurdodau lleol a'r pwerau sydd mewn grym."
>
> **- Rhanddeiliad Allanol**

> "Mae'r system wedi'i chynllunio i fenywod fethu. Gall y broses o'r asesiad hyd at yr apwyntaid ar gyfer cymorth defnyddio cyffuriau gymryd 4 mis neu fwy."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

> "Achubodd y menywod yn y gwasanaeth hwn fy mywyd. Roedden nhw'n gwneud imi deimlo'n llai ynysig ac yn fy helpu i ddarganfod fi fy hun eto."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**




> Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi cael profiad o gam-drin plant yn rhywiol. Mae angen cefnogaeth ar blant ar yr adeg honno, beth sydd yna pan fo'n digwydd i ni am y tro cyntaf?"
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

## Cymunedau a chymdeithas

### Mae deddfwriaeth ac ymatebion cryf gan y wladwriaeth yn hanfodol, er mwyn galluogi menywod a merched i gael mynediad cyfartal i gyfiawnder, cymorth a gwarchodaeth ac er mwyn canolbwyntio ar ataliad fel mater o'r pwys mwyaf.

Ein nod yw hyrwyddo'r angen i bob asiantaeth yng Nghymru weithredu eu dyletswydd statudol i sbarduno atal trais yn erbyn menywod a merched, fel y nodir gan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd ein gwaith yn cael ei lywio gan yr angen am newid systemau a strwythurau, a'n galw parhaus i fodloni gofynion a nodir mewn Confensiynau rhyngwaldol a deddfwriaeth genedlaethol i ddileu trais yn erbyn menywod.

### Nid yw pwerau gwladol, polisi a deddfwriaethol, ar eu pennau eu hunain, yn ddigon.

Mae angen i gymunedau ddeall, adnabod a darparu ymatebion defnyddiol yn well a pheidio â chydgynllwynio gyda drwgweithredwyr na chaniatáu eu hymddygiad. Mae hyn yn hanfodol gan fod llawer o gymorth i oroeswyr a heriau i ddrwgweithredwyr yn digwydd yn anffurfiol, nid gan wasanaethau.

Gallai cymunedau gynnwys lleoliadau ffisegol, mannau ar-lein neu gymunedau sy'n gysylltiedig â hunaniaethau a rennir. Ynddynt oll, dylai pobl deimlo'n hyderus i adnabod ac ymateb yn effeithiol, i beidio â chadw'n dawel, ac i herio a tharfu ar yr agweddau a'r normau sy'n sail i drais a cham-drin.

Nid ydym yn cefnogi labelu rhai mathau o drais fel arferiad, traddodiad, neu weithred 'diwylliannol', sy'n awgrymu bod trais yn erbyn menywod a merched yn dderbyniol o fewn rhai cymunedau. Mae pob math o drais yn erbyn menywod a merched – gan gynnwys 'trais ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, priodas dan orfod ac enwaedu benywaidd, masnachu a chamfanteisio – yn achos ac yn ganlyniad i safle anghyfartal menywod a merched mewn cymdeithas, ac mae'n groes i hawliau dynol. Mae'n rhaid i'r perspectif hwn fod yn ganolog i'n hymyriadau cymunedol.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth hon, byddwn yn canolbwyntio ar dri maes trosfwaol. Bydd y rhain hefyd yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth a'n pwrpas elusennol, ac yn sicrhau ein bod yn neilltuo ein hadnoddau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd i ddod.

> Fel ffederasiwn cenedlaethol, mae ein haelodau, goroeswyr, llunwyr polisi, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill wedi dweud wrthym beth yw'n cryfderau yn eu barn nhw, a beth sydd gwir angen ei newid yng Nghymru. Llywir y strategaeth hon gan eu hadborth, ein tystiolaeth o gyflwr y sector yng Nghymru, a sut mae asiantaethau a systemau ar hyn o bryd yn adnabod ac yn ymateb i gam-drin yng Nghymru."
>
> **- Eleri Butler, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru**

# Ein cenhadaeth: Nodau strategol

**Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, byddwn yn canolbwyntio ar:**

“Dim ond wedi imi siarad â gwasanaethau menywod roeddwn i’n deall pa hawliau oedd gen i, mae mor bwysig i bawb wybod.”

**- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

***Yn ganolog i’n holl waith mae lleisiau a phrofiadau goroeswyr cam-drin, y rheini sy’n byw’n feunyddiol yn goroesi camdriniaeth neu gyda gwaddol ei effaith, sy’n gweithio o fewn ein mudiad, sy’n defnyddio gwasanaethau neu beidio, sy’n dod yn weithredwyr o fewn y gymuned neu sy’n gweithio o fewn asiantaethau eraill.***

## 1

**Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf.**

Rydym wedi ymrwymo i waith ataliol sylfaenol, sy’n cynnwys addysg i newid agweddau a chanfyddiadau, er mwyn atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gellir ei dargedu’n gyffredinol neu mewn grwpiau penodol, megis plant neu aelodau o gymuned. Mae gwaith ataliol yn gofyn am ymrwymiad i herio a newid y normau, systemau a’r strwythurau cymdeithasol a diwylliannol sy’n sicrhau parhad camdriniaeth, niwed ac anghydraddoldebau. Mae angen i waith ataliol hefyd fynd i’r afael â’r ffaith bod trais yn erbyn menywod a merched yn strwythurol ac yn un o’r mecanweithiau cymdeithasol sy’n gorfodi darostwng menywod a merched mewn cymdeithas. Am y rheswm hwn, mae gweithio i hyrwyddo rhyddid menywod a merched, i herio a datgymalu normau a disgwyliadau cymdeithasol sy’n seiliedig ar rywedd, ac i ddatgymalu patriarchaeth a sytemau eraill o orthwm yn fordd allweddol o sicrhau ei fod yn cael ei atal.

## 2

**Sicrhau darpariaeth o wasanaethau o ansawdd i oroeswyr sy’n adeiladu ar gryfderau, yn diwallu anghenion ac yn lleihau effeithiau niweidiol cam-drin dros amser.**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a chymorth aelodau ardderchog sy’n cynorthwyo gwasanaethau arbenigol i gyflwyno darpariaeth o safon, fel canolfannau rhagoriaeth yn eu cymunedau. Mae darpariaeth effeithiol yn dibynnu ar adnabod cyn gynted â phosibl y rheini sy’n debygol o brofi cam-drin, a darparu adnoddau a chymorth o ansawdd uchel i atal cam-drin pellach a lleihau ei effaith (“ataliad eilaidd”). Mae darpariaeth effeithiol hefyd yn dibynnu ar ddarparu cymorth ac eiriolaeth tymor hwy er mwyn lleihau’r trawma a’r niwed a achosir gan ddod i gysylltiad dros gyfnod estynedig â thrais a cham-drin, sy’n aml yn gronnol i fenywod a merched (“ataliad trydyddol”).

## 3

**Creu partneriaethau effeithiol gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol ac eraill i gryfhau ein sefydliad er mwyn cyflawni newid sy’n para.**

Rydym wedi ymrwymo i dynnu sylw at brofiadau amrywiol goroeswyr ac i ddatblygu a chydweithio mewn partneriaeth mewn modd sy’n cynnal ein gwerthoedd ac sy’n dangos parch, tryloywder, gonestrwydd ac uniondeb, y naill i’r llall, a hynny’n sail i’n holl waith. Trwy ganolbwyntio ar gydweithio i wella ymatebion i’r rheini sy’n dioddef gwahaniaethu lluosog – menywod duon a lleiafrifol, lesbiaid, menywod anabl, menywod mudol, pobl ifanc, menywod hŷn, menywod trawsrywiol – ein nod yw gwella mynediad i gymorth a chyfiawnder i bawb sy’n goroesi camdriniaeth.

# Ein blaenoriaethau 2019-2024

## 1 Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf.

### Yr hyn y byddwch chi'n ei weld:

**Bod Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall, ei herio a'i atal yn well.**

### Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel peth cyffredin, ataliadwy, difrifol, annerbyniol, a chroes i hawliau dynol.
- Herio normau, rolau ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol niweidiol ar sail rhywedd a hyrwyddo perthnasoedd parchus, diogel a chyfartal.
- Cydweithio i wella gwybodaeth a newid agweddau mewn cymunedau, codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, a hyrwyddo dealltwriaeth o sut y gallwn sicrhau ataliad o fewn fframwaith cyfiawnder cymdeithasol sy'n seiliedig ar hawliau.
- Parhau i weithio gyda gwasanaethau arbenigol i herio aflonyddu a cham-drin rhywiol, a rhoi arweiniad i'r mudiad 'Mae'r amser ar ben' yng Nghymru.
- Cydweithio i wella a hyrwyddo adroddiadau mwy cyfrifol yn y cyfryngau.
- Parhau i gryfau ein mudiad, a hyrwyddo'r rôl werthfawr y mae gwasanaethau'n ei chwarae i gyflawni gwaith ataliol mewn cymunedau ledled Cymru.

### Yr hyn y byddwch chi'n ei weld:

**Bod gan Fenywod a phlant berthnasoedd iach, diogel a chyfartal.**

### Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Cefnogi gwasanaethau arbenigol i barhau i ddarparu addysg ataliol, a hyrwyddo ymatebion ac adnoddau i atal cam-drin fel rhan o'r cwricwlwm newydd ac o fewn cymunedau.
- Cefnogi gwasanaethau i rymuso ac adeiladu adnoddau a sgiliau goroeswyr a chyflwyno ymyriadau effeithiol gyda drwgweithredwyr.
- Cydweithio i atal a lliniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan sicrhau bod newid systemau yn cyd-fynd â hawliau plant i gefnogaeth bwrpasol.
- Gwella mynediad at gymorth amserol, effeithiol ac arbenigol i blant a phobl ifanc o fewn cymunedau, i'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a/neu gan ymddygiad niweidiol.
- Cefnogi gwasanaethau i hyrwyddo grymuso menywod a merched yn economaidd ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd sy'n cael eu profi ganddyn nhw.

> "Y peth gwaethaf oedd nad oedd opsiwn gan fy mhlant i siarad â rhywun yn yr ysgol, mae angen inni wrando ar y plant."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

> "Dyna i gyd mae asiantaethau'n ei weld yw statws mewnfudo, nid ydyn nhw'n ein gweld ni fel bodau dynol. Pe bydden nhw wedi helpu, gallwn fod wedi dianc yn gynt, fyddwn i ddim wedi aros mor hir gyda'r cam-drin."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**

"Un o'r gwasanaethau â'r gwarth lleiaf yn perthyn iddo fe yw'r lloches a'r gwasanaethau i fenywod, mynd yno oedd y peth gorau imi ei wneud erioed, fe achuboddfy mywyd."

- Goroeswr, Grŵp Ffocws

"Nid yw'n helpu pan na allwch gael cymorth cyfreithiol ac mae'ch cyn-bartner yn eich croesholi yn y llys."

- Goroeswr, Grŵp Ffocws

## 2 Sicrhau darpariaeth o wasanaethau o ansawdd i oroeswyr sy'n adeiladu ar gryfderau, sy'n diwallu anghenion ac sy'n lleihau dros amser effeithiau niweidiol cam-drin.

### Yr hyn y byddwch chi'n ei weld:

**Bod gwasanaethau arbenigol wedi'u cryfhau a'u cefnogi i ddiwallu anghenion amrywiol yn effeithiol ac i leihau effeithiau niweidiol trais.**

### Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Darparu cymorth pwrpasol rhagorol i aelodau gryfhau a meithrin gallu a llywodraethiant, gan alluogi gwasanaethau i barhau i ddarparu cymorth o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer comisiwn, ac i gyflawni safonau perthnasol.
- Ymgyrchu a chefnogi gwelliannau mewn comisiynu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn genedlaethol ac yn lleol yn cael eu hariannu'n gynaliadwy ac yn ddiogel, a'u bod yn gallu diwallu anghenion a mynd i'r afael â gwahaniaethau lluosog.
- Cyflwyno cyfathrebiadau sydd wedi'u targedu'n fwy a defnyddio technolegau i gefnogi gwasanaethau i ymgysylltu â digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol, i wella mecanweithiau casglu data cenedlaethol ac i ddangos effaith.
- Parhau i ddarparu rhaglenni hyfforddi perthnasol, gwella mynediad at gymwysterau achrededig cenedlaethol, a darparu cymorth ymarferol wrth gyflawni'r hyn sy'n gweithio.
- Cefnogi gwasanaethau i sefydlu partenriaethau neu gonsortia i gynyddu eu cyrhaeddiad i'r eithaf.
- Parhau â systemau achredu ar gyfer gwasanaethau aelodau cam-drin domestig (Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol) a hyrwyddo safonau sectorau eraill Cymru, gan gydnabod nad oes budd i wasanaethau a goroeswyr mewn dull 'un ateb sy'n addas i bawb'.
- Sefydlu seilwaith cymorth llywodraethu, adnoddau dynol, busnes ac ymgysylltu cryf i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion elusennol yn genedlaethol yn unol â'n gwerthoedd.

### Yr hyn y byddwch chi'n ei weld:

**Bod goroeswyr yn cael mynediad at gymorth cynnar sy'n adeiladu ar eu cryfderau, sy'n diwallu anghenion ac sy'n gwella eu hiechyd a'u lles.**

### Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Parhau i ddarparu'r Llinell Gymorth Genedlaethol ac i sicrhau bod Llwybrau at Gymorth ar gael i'r holl ddarparwyr perthnasol yng Nghymru.
- Cydweithio i wella arferion a dysgu ar sail tystiolaeth yng Nghymru ac i hyrwyddo arferion effeithiol sydd wedi'u gwerthuso er mwyn cefnogi goroeswyr a newid ymddygiad drwgweithredwyr.
- Cefnogi gwasanaethau i ddiwallu anghenion goroeswyr sy'n wynebu cam-drin ac anfantais lluosog fel y gall mwy o oroeswyr gael mynediad at gymorth yn lle bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnyn nhw.
- Cydlynu gwasanaethau hyfforddi cenedlaethol gydag aelodau er mwyn gwella mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel yn rhanbarthol ac yn lleol, yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

## 3 Creu partneriaethau effeithiol gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol ac eraill i gryfhau ein mudiad a chyflawni newid sy'n para.

### Yr hyn y byddwch chi'n ei weld:

**Bod y wladwriaeth, asiantaethau a chymunedau yn cyflwyno ymatebion mwy effeithiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

### Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Dadlau dros sicrhau bod dyletswyddau a gofynion Strategaeth Cymru, deddfwriaeth a Chonfensiwn Istanbul yn cael eu cyflawni yng Nghymru.
- Cynrychioli gwasanaethau arbenigol yn genedlaethol, a pharhau i gydlynu fforymau darparwyr gwasanaethau arbenigol yn rhanbarthol, gan greu lle i wasanaethau rannu profiadau a chydweithio ar ymgyrchoedd.
- Dadlau dros welliannau mewn cyfraith a pholisi. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ffordd y caiff plant a menywod eu trin o fewn y system cyfiawnder teuluol a mynd i'r afael â'r gwahaniaethu cynhenid yn y system 'dim hawl i droi at arian cyhoeddus'.
- Cefnogi a galluogi aelodau i gyflwyno "newid sy'n para" mewn cymunedau.
- Hyrwyddo llwyddiannau gwasanaethau arbenigol a gwaith y ffederasiwn cenedlaethol.

---

### Yr hyn y byddwch chi'n ei weld:

**Bod llywodraethau, asiantaethau a chymunedau yn atebol am weithredu newid i fenywod a phlant.**

### Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Cydlynu a chefnogi ymgysylltu â goroeswyr, gan sicrhau ein bod yn tynnu sylw at leisiau amrywiol, a bod cyfleoedd i ganoli profiadau byw menywod a merched a effeithwyd gan gam-drin, ac y manteisir i'r eithaf ar anfanteision lluosog, fel nad oes unrhyw fenyw yn cael ei hesgeuluso.
- Cydweithio â gwasanaethau arbenigol i sicrhau ymgysylltiad â goroeswyr, yn benodol gyda goroeswyr trais rhywiol, priodas dan orfod, a thrais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir.
- Ymchwilio i adnabod y materion sydd o bwys i fenywod a merched, a pharhau i ddadlau dros gyflawni argymhellion gan grwpiau ffocws goroeswyr.
- Adeiladu cefnogaeth mewn cymunedau ar lawr gwlad i gryfhau ein mudiad dros newid.

> "Pe bai nhw'n gwrando arnon ni'n fwy efallai gallai pethau fod yn well i eraill."
>
> **- Goroeswr, Grŵp Ffocws**





# Ein ffederasiwn: Sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau

"Fel ffederasiwn mae gan Gymorth i Ferched Cymru gymwyseddau cryf yn arbennig o safbwynt eu gwybodaeth, mynediad at adnoddau, lobïo, hyfforddi a sgiliau cyfathrebu."

**- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**

## Ffederaiswn

***Mae sefydliadau ymreolaethol lleol yn gweithio dan arweiniad un cenedlaethol***




**Mae gennym sylfaen gref i adeiladu arni, i gyflawni ein nodau. Mae gennym dimau a Bwrdd o Ymddiriedolwyr medrus ac arbenigol iawn, fframwaith llywodraethu cryf ac arweinyddiaeth a thîm amrywiol a hynod fedrus sydd â sawl degawd o brofiad wedi'i wreiddio yn y mudiad trais yn erbyn menywod a merched yn y DU.**

Mae ein cryfder wedi'i seilio ar fod yn elusen ffederal[11], sy'n manteisio i'r eithaf ar fuddion lleoliaeth ar raddfa genedlaethol, Y DU ac Ewropeaidd[12] a chyda llais cynrychioliadol.

Rydym yn annibynnol ar wasanaethau aelodau lleol a rhanbarthol a chenedlaethol, ac mae ein strwythur yn darparu'r gorau o'r 'bychan a'r lleol' a hynny gyda dylanwad cenedaethol, gan gyfuno dull 'o'r gwaelod i fyny' gyda strwythur cydweithredol cenedlaethol y gall pob gwasanaeth elwa arno.

Mae goroeswyr yn ganolog i'n rhwydwaith a'n mudiad: sefydlodd goroeswyr ein gwasanaethau, maen nhw'n parhau i weithio o fewn ein ffederasiwn ac yn ei arwain, ac mae profiadau goroeswyr wrth wraidd cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau.

Fel y corff ymbarél yng Nghymru, rydym hefyd yn cydweithio gyda darparwyr eraill sy'n rhannu ein nodau ac rydym yn eu cefnogi. Cydlynwn Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol i ddarparu arbenigedd cydlynus er mwyn gwella arferion a pholisi, a chefnogi aelodau i gydweithio i ddiwallu anghenion amrywiol goroeswyr.

Mae gan ein ffederaiswn cenedlaethol weledigaeth, sail gwerthoedd a dull gweithredu a rennir, ac mae buddsoddi mewn strwythur ffederal yn darparu effaith gyfunol elusennau unigol a'r budd a ddaw o ddylanwad, gwydnwch a chryfder cyfunol y mudiad. Gyda'n gilydd, darparwn raglen gref, ddatblygedig a chydlynus o waith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd o fudd i oroeswyr ac sy'n creu dyfodol mwy diogel, mwy iach, mwy cyfartal a di-drais i bawb.

> "Mae'n dda i gyfrannu at ataliad, at newidiadau sy'n bosibl, at newidiadau sy'n para."
>
> **- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**

**NODIADAU**

[11] Mae elusennau ffederal yn sefydliadau sydd â nifer o aelodau lled-annibynnol neu gwbl ymreolaethol sy'n gysylltiedig â sefydliad canolog. Caiff endidau lleol a chendlaethol eu rheoleiddio yn yr un modd ag unrhyw sefydliad elusennol arall.

[12] Gweithiwn gyda'n chwaer ffederasiynau yn y DU - Scottish Women's Aid, Women's Aid Federation England a Northern Ireland Women's Aid (bob un yn elusen annibynnol), ochr yn ochr â chyrff ymbarél sectorau eraill, ac rydym yn cyfrannu at Fwrdd Cynghori a rhwydwaith WAVE Ewropeaidd sy'n cynnwys Lobi Menywod Ewropeaidd.

# Ein llywodraethiant: Sut y byddwn yn mesur cynnydd

**Mae'r Strategaeth hon yn cyflwyno'n blaenoriaethau tra phwysig, ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a sut yr anelwn at gyflawni hyn. Mae'n nodi'r sail gwerthoedd y gweithredwn oddi mewn iddo, ein dull gweithredu a'n glasbrint ar gyfer newid.**

Mae ein Strategaeth a'n darpariaeth yn cyd-fynd â fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru trwy fabwysiadu dull hirdymor sy'n canolbwyntio ar ataliad, sy'n blaenoriaethu cydweithio ac integreiddio, ac sy'n cadw cyfranogiad goroeswyr, aelodau a rhanddeiliaid yn ganolog.

**Cefnogir y Strategaeth gan gynlluniau cyflawni manylach sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol, er mwyn cyflawni ein hamcanion. Erbyn 2024 byddwn yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau:**

- **Bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall, ei herio a'i atal yn well.**
- **Bod gan fenywod a phlant berthnasoedd iach, diogel a chyfartal.**
- **Bod gwasanaethau arbenigol wedi'u cryfhau a'u cefnogi i ddiwalllu anghenion amrywiol yn effeithiol ac i leihau effeithiau niweidiol trais.**
- **Bod goroeswyr yn cael mynediad at gymorth cynnar sy'n adeiladu ar eu cryfderau, sy'n diwallu anghenion ac sy'n gwella eu hiechyd a'u lles.**
- **Bod y wladwriaeth, asiantaethau a chymunedau yn cyflwyno ymatebion mwy effeithiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**
- **Bod llywodraethau, asiantaethau a chymunedau yn atebol am weithredu dros newid i fenywod a phlant.**

Fel dogfen, bydd y cyfeiriad cyffredinol yn aros fel yr amlinellwyd ond gellir adolygu allbynnau unigol yn flynyddol yn dibynnu ar yr hinsawdd wleidyddol, blaenoriaethau ymgyrchu neu amgylchiadau cyllido ein ffederasiwn dros y blynyddoedd canlynol.

Ein Bwrdd o Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio cyflawni'r Strategaeth, a hwnnw'n dîm o gyfarwyddwyr cwmnïau medrus iawn sy'n sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n gyfreithiol, yn gyfrifol yn ariannol ac yn ysgogi a monitro cyflawniad yn erbyn ein gweledigaeth a'n hamcanion elusennol.

Er mwyn llywio ein hymrwymiad i welliant parhaus, mae ein holl drefniadau llywodraethu wedi'u hadolygu, eu cryfhau, eu harchwilio'n allanol a'u meincnodi yn erbyn Cod Llywodraethu Elusennau.

Rydym wedi ymrwymo i gasglu a dadansoddi tystiolaeth o'n heffaith, i fyfyrio ar ein cynnydd ac i lywio blaenoriaethau cyflenwi blynyddol. Yn ogystal â'r data a'r adborth o'n haelodaeth a'n rhwydwaith ehangach o wasanaethau arbenigol yn Nghymru, rydym hefyd yn casglu tystiolaeth o gynnydd gan oroeswyr, gan bencampwyr cymunedol a ffrindiau, cydweithwyr a theulu goroeswyr. Mae dadansoddi data yn ymgorffori gwybodaeth ddemograffig a thystiolaeth o asesiadau o anghenion cymunedol, gwasanaethau a mapio adnoddau ledled Cymru.

# Theori newid: blaenoriaethau a'r effaith a fwriadwyd i sicrhau newid parhaol

## Mae ein blaenoriaethau i gyflawni hyn yn cynnwys

1. Codi ymwybyddiaeth: peth cyffredin, ataliol, difrifol, annerbyniol ac yn groes i hawliau dynol.
2. Herio normau, rolau ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol niweidiol ar sail rhywedd a hyrwyddo perthnasoedd diogel a chyfartal.
3. Herio aflonyddu rhywiol annog adroddiadau mwy cyfrifol yn y cyfryngau a chryfhau/hyrwyddo ein mudiad.
4. Cefnogi gwasanaethau i ddarparu addysg ataliol, a grymuso a datblygu sgiliau unigolion a chymunedau.
5. Gwella mynediad at gymorth i blant a helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol.
6. Hyrwyddo grymuso menywod a merched yn economiadd.
7. Darparu cymorth pwrpasol o ansawdd i aelodau, a meithrin gallu i wneud y mwyaf o gyflawni/cyflawni safonau.
8. Sicrhau cyllid diogel a chynaliadwy i wasanaethau arbenigol ddiwallu anghenion a mynd i'r afael â gwahaniaethu lluosog.
9. Gwella cyfathrebiadau a thechnoleg, casglu data a mecanweithiau i fesur effaith.
10. Ymchwilio a hyrwyddo arferion effeithiol a werthuswyd i gefnogi goroeswyr a gwaith pellach gyda drwgweithredwyr.
11. Cyflwyno/cydlynu hyfforddiant a chymwysterau cenedlaethol.
12. Darparu Llinell Gymorth Genedlaethol i oroeswyr/teuluoedd/gwasanaethau.
13. Gwella sail tystiolaeth, ymchwil a dysgu yng Nghymru.
14. Darparu seilwaith llywodraethu a chyflawni cryf a chynaliadwy i gyflawni ein hamcanion o fewn ein gwerthoedd.
15. Dadlau dros sicrhau bod gofynion Strategaeth Cymru, deddfwriaeth a'r Confensiwn Rhyngwladol yn cael eu cyflawni.
16. Cynrychioli gwasanaethau arbenigol yn genedlaethol, a dadlau ac ymgyrchu dros wella'r gyfraith/polisi/arferion.
17. Cydlynu, cefnogi a galluogi aelodau i gyflawni newid sy'n para a hyrwyddo eu llwyddiannau.
18. Cydlynu ymgysylltu â goroeswyr a sicrhau ein bod yn tynnu sylw at leisiau amrywiol, fel nad oes unrhyw fenyw yn cael ei hesgeuluso.
19. Ymchwilio i faterion sydd o bwys i fenywod a merched.
20. Adeiladu cefnogaeth mewn cymunedau ar lawr gwlad i gryfhau ein mudiad dros newid.

## Ein canlyniadau: Yr hyn y byddwch chi'n ei weld

- Bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall, ei herio a'i atal yn well.
- Bod gan fenywod a phlant berthnasoedd iach, diogel a chyfartal.
- Bod gwasanaethau arbenigol wedi'u cryfhau a'u cefnogi i ddiwallu anghenion amrywiol yn effeithiol ac i leihau effeithiau niweidiol trais.
- Bod goroeswyr yn cael mynediad at gymorth cynnar sy'n diwallu eu hanghenion ac yn gwella eu hiechyd a'u lles.
- Bod y wladwriaeth, asiantaethau a chymunedau yn cyflwyno ymatebion mwy effeithiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Bod llywodraethau, asiantaethau a chymunedau yn atebol am weithredu newid i fenywod a phlant.

## Ein cenhadaeth: Nodau strategol

Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Sicrhau darpariaeth o wasanaethau o ansawdd i oroeswyr sy'n adeiladu ar gryfderau, yn diwallu anghenion ac yn lleihau effeithiau niweidiol cam-drin dros amser.

Partneriaethau gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol ac eraill a chryfhau ein sefydliad er mwyn cyflawni newid sy'n para.

## Ein gweledigaeth

Byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a thrwy wneud hynny yn sicrhau annibyniaeth, rhyddid a gwaredigaeth rhag gormes.




# Ymunwch â'n mudiad dros newid

**Mae ein penderfyniad di-baid i hyrwyddo'r newid cymdeithasol a diwylliannol sydd ei angen i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ein huno gyda'n cyllidwyr, ein cefnogwyr a'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu.**

Os ydych chithau, fel ninnau, wedi ymrwymo i gyflawni newid sy'n para i oroeswyr, i greu cymdeithas nad yw bellach yn goddef trais yn erbyn menywod a merched, ac i sicrhau byd lle gall menywod a merched gyflawni eu llawn botensial, ymunwch â'n mudiad yng Nghymru.

Mae ein mudiad yn fwy na rhwydwaith o wasanaethau a ddarperir mewn cymunedau lleol: mae goroeswyr camdriniaeth – p'un a ydynt yn defnyddio gwasanaethau ai peidio – wedi bod yn ganolog i'n gwaith erioed, ac yn parhau i fod felly. Sefydlwyd llawer o wasanaethau gan fenywod ysbrydoledig sy'n oroeswyr camdriniaeth ac mae llawer o oroeswyr hefyd yn gweithio yn ein rhwydwaith o wasanaethau, a thu hwnt. Y ffocws cryf hwn ar roi goroeswyr wrth galon popeth a wnawn sy'n gwneud mudiad Cymorth i Ferched Cymru yn rym angenrheidiol ac effeithiol ar gyfer newid cadarnhaol i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol – nod sy'n ein huno â chyllidwyr, cefnogwyr a'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu.

***Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan yn ein gwaith i ddileu trais yn erbyn menywod yng Nghymru. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth.***

Gallwch weithredu – waeth pa mor fawr neu fach – i gefnogi ein gwaith drwy gydol y flwyddyn. Gallwch ddod yn gefnogwr unigol, yn gefnogwr sefydliadol neu godi arian i 'n cefnogi i wireddu ein gweledigaeth.

Ymunwch â ni i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod yn ein cymunedau. Trwy wneud hynny gallwch ein helpu i godi llais yn erbyn anghydraddoldebau rhywiol ac eraill sy'n gorgyffwrdd â nhw, a dylanwadu ar newid polisi i greu byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag ofn a thrais.

***Cysylltwch â ni ac ymunwch â'n mudiad dros newid, heddiw![13]***

NODIADAU

[13] https://www.welshwomensaid.org.uk/join-us/



Violence against women it's everybody's business
Trais yn erbyn menywod mae'n fusnes i bawb
welshwomensaid.org.uk
Registered Charity number 1140962
Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

## Am fwy o wybodaeth:

www.welshwomensaid.org.uk
info@welshwomensaid.org.uk

© Cymorth i Ferched Cymru
Mehefin 2019

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid